

TELERAU AC AMODAU PARC CHWYDDADWY

Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn effeithio ar eich hawliau cyfreithiol, felly sicrhewch eich bod wedi eu darllen ac yn deall sut ydym ni'n gweithio.

Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyfyngedig gyda chyfeiriad swyddfa cofrestredig yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Chester Road West, Queensferry, Sir y Fflint, Y Deyrnas Unedig, CH5 1SA, Rhif Cwmni Cofrestredig 7610, (a elwir wedi hyn yn "Hamdden a Llyfrgelloedd Aura" "Parc Chwyddadwy" neu "ni").

Trwy archebu slot yn ein Parc Chwyddadwy ("Parc") ar ran eich hun neu ar ran unigolyn ifanc o dan 18 oed, rydych yn cytuno i fod yn rhwymedig i'r telerau ac amodau hyn sy'n gymwys i'ch archeb ac unrhyw amser a dreulir yn y Parc.

Mae'r telerau ac amodau hyn yn cynnwys gwybodaeth bwysig yn ymwneud â'ch cyfranogiad chi ac aelodau o'ch parti ac, yn unol â hynny, rydych yn cydnabod a chytuno y byddwch hyd eithaf eich gallu, yn sicrhau bod holl aelodau eich parti yn ymwybodol o, ac yn derbyn y telerau ac amodau hyn.

Archebion

Ni ystyrir y bydd unrhyw archeb wedi'i dderbyn oni bai y cadarnheir hynny yn ysgrifenedig trwy e-bost gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura. Rhaid i chi ein hysbysu ni cyn gynted â phosibl o unrhyw gamgymeriadau yn y cadarnhad o archeb. Bydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura yn gwneud ymdrech rhesymol i sicrhau bod eich cyfranogiad chi a'ch parti yn dechrau ar yr amser a archebwyd a bydd cyfrifoldeb ar bob cyfranogwr i sicrhau eu bod yn cyrraedd mewn digon o bryd. Ni chaniateir y rhai sy'n cyrraedd yn hwyr i gyflawni'r Gweithgareddau ac nid fydd ad-daliadau na iawndal yn daladwy mewn amgylchiadau o'r fath.

Taliad

Rhaid talu ar-lein cyn dod i'r Parc a/neu gyflawni'r gweithgaredd a gellir talu gyda cherdyn debyd neu gredyd ar-lein.

Canslo

Mae gennych hawl i ganslo eich archeb ar yr amod fod Hamdden a Llyfrgelloedd Aura yn derbyn eich cais ar gyfer canslo o leiaf 72 awr cyn yr amser dechrau a archebwyd. Rhaid i unrhyw geisiadau am ganslo gael eu gwneud ar-lein neu drwy e-bost i'r cyfeiriad cyswllt a nodir ar ein gwefan. Bydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura hawl i ganslo eich archeb ar unrhyw adeg. Mewn digwyddiad lle mae Hamdden a Llyfrgelloedd Aura yn penderfynu canslo eich archeb, rhoddir ymdrech rhesymol i'ch hysbysu chi cyn gynted â

phosibl. Ni ellir ad-daliad am unrhyw archebion. Fodd bynnag, byddwn yn caniatáu i chi newid dyddiad yr archeb (yn destun argaeledd)

Ad-daliadau

Ni ellir ad-dalu unrhyw archebion sy'n cael eu canslo. Fodd bynnag, byddwn yn caniatáu i chi newid dyddiad yr archeb (yn destun argaeledd). Ni ellir aildrefnu archebion sy'n cael eu canslo o fewn 72 awr.

Risg Cynhenid yn y Gweithgareddau

Mae'r gweithgaredd rhwystrau gwynt a gweithgareddau a chyfranogiad corfforol heriol eraill yn dod gyda risg gan fod bownsio a gweithgareddau eraill yn y parc yn cynnwys risg o niwed. Bydd yr holl gyfranogwyr yn derbyn briff diogelwch manwl a bydd gwybodaeth ddiogelwch wedi'u gosod yn strategol o amgylch y parc.

Diogelwch

Ar ôl i'r wybodaeth ddiogelwch gael ei roi i gyfranogwyr, ni chewch eich goruchwylio'n uniongyrchol gan aelod o staff y Parc Chwyddadwy. Rhaid i oedolyn gymryd rhan gyda phlentyn 7 oed neu iau. Caniateir un oedolyn i oruchwylio uchafswm o 5 o blant 7 oed neu iau.

Am resymau diogelwch, rhaid i holl gyfranogwyr fod yn eithaf ffit ac iach, o leiaf 5 oed, rhaid pwysu llai na 19.5 stôn/125kg, a rhaid iddynt gael golwg rhesymol o dda neu wisgo lensys cyffwrdd neu sbectols ar bresgripsiwn. Os oes gennych unrhyw bryderon, cynghorwn i chi ymweld â'n Parc cyn eich archeb a siarad gydag aelod o staff o'r Parc Chwyddadwy. Ni fydd unrhyw un nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn, neu os nad ydynt yn teimlo'n hyderus yn cyflawni'r gweithgareddau ar y diwrnod, neu'n anffit i gyflawni'r gweithgareddau ym marn aelod o staff y Parc neu'n cyfranogwr, yn cael caniatâd i gyflawni'r gweithgareddau a bydd yn derbyn ad-daliad llawn ar gyfer y ffioedd archebu.

Mae'r gweithgareddau yn heriol yn gorfforol ac mae gofyn cael rhyw fath o ystwythder, cryfder a stamina. Rhaid i gyfranogwyr bob amser gymryd rhan o fewn eu gallu – dim ond yr unigolyn sy'n gwybod neu'n deall eu cyfyngiadau a gallu eu hunain. Os ydych yn ansicr os allwch gwblhau symudiad, ni ddylech geisio'i wneud. Os oes gan gyfranogwyr bryderon meddygol, cynghorir iddynt siarad â'u doctor ymlaen llaw. Bydd gofyn i gyfranogwyr ardystio nad ydynt yn dioddef o unrhyw gyflwr meddygol a fyddai'n eu gwneud yn fwy tebygol o fod yn rhan o unrhyw ddamwain a all arwain at niweidio eu hunain neu eraill. Yn sgil natur corfforol y gweithgareddau, argymhellwn na ddylai merched beichiog gymryd rhan.

Mae'r Parc Chwyddadwy yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i'r gweithgareddau neu i dynnu cyfranogwyr o'r gweithgareddau os ydynt yn ystyried hynny'n angenrheidiol. Mae

hyn yn cynnwys cyfranogwr sydd ddim yn cydymffurfio â'r rheolau diogelwch a chyngor neu a ystyrir o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

Atebolrwydd

Rydym ni'n gyfrifol am golled a difrod rhagweladwy a achosir gennym ni Os fyddwn yn methu â chydymffurfio â'r telerau, rydym yn gyfrifol am golled neu ddifrod rhagweladwy yr ydych yn ei ddioddef sy'n digwydd o ganlyniad i ni'n torri'r cytundeb hwn neu ein methiant ni i ddefnyddio sgil a gofal rhesymol, ond nid ydym yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod nad ydynt yn rhagweladwy. Mae colled neu ddifrod yn rhagweladwy os yw'n amlwg y bydd yn digwydd neu, pan wnaed y contract, roeddech chi a ni yn gwybod y byddai hyn yn debygol o ddigwydd, er enghraifft, os y gwnaethoch drafod hyn yn ystod y broses gwerthiant.

Nid ydym yn eithrio nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar ein hatebolrwydd i chi lle byddai'n anghyfreithlon gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am farwolaeth neu niwed personol a achosir gan ein hesgeulustod neu esgeulustod ein gweithwyr, asiantwyr neu isgcontractwyr; am dwyll neu gamliwiad twyllodrus; am dorri eich hawliau cyfreithiol mewn perthynas â'r gweithgaredd. Oni bai y nodir fel arall yn y telerau ac amodau hyn, bydd atebolrwydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura yn gyfyngedig i ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd i Hamdden a Llyfrgelloedd Aura. Ni fwriedir i unrhyw beth a gynhwysir yn y telerau ac amodau archebu hyn gyfyngu ar atebolrwydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura mewn perthynas â marwolaeth neu niwed personol a achosir gan ein esgeulustod ni neu ein gweithwyr, asiantwyr neu gcontractwyr

Cwynion

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion am y gwasanaethau, cysylltwch â ni. Gallwch gysylltu â ni ar 01352 704200 neu ar info@aura.wales

Fel arall, siaradwch ag un o'n staff yn y Parc.

Eich Gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych yn ei ddarparu i ni yn unol â'n Polisi Preifatrwydd, lle gellir dod o hyd i gopi ar-lein.

Aseiniad

Gallwn drosglwyddi ein hawliau a rhwymedigaethau o dan y telerau hyn i sefydliad arall. Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod os ydym yn bwriadu gwneud hyn. Os ydych yn anhapus gyda'r trosglwyddiad, gallwch gysylltu â ni i ddod a'r contract i ben o fewn 30 diwrnod o roi gwybod i ni a byddwn yn ad-dalu unrhyw daliadau rydych wedi'u gwneud ymlaen llawn.

Cyfraith Berthnasol

Mae'r telerau hyn yn cael eu llywodraethu gan gyfraith y Deyrnas Unedig a galwch ddechrau achosion cyfreithiol mewn perthynas â'r gwasanaethau yn llysoedd y DU. Os yw llys yn darganfod fod y telerau ac amodau hyn yn anghyfreithlon, bydd y gweddill yn parhau mewn grym.

DARLLENWCH Y TELERAU AC AMODAU HYN YN OFALUS CYN DEFNYDDIO'R SAFLE

Pwy ydym ni a sut i gysylltu â ni

Mae'r wefan hon (www.aura.cymru) a weithredir gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyfyngedig ("Ni"). Rydym ni wedi cofrestru yn y DU o dan rif cwmni 7610 ac mae ein swyddfa cofrestredig yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Chester Road West, Queensferry, Sir y Fflint, Y Deyrnas Unedig, CH5 1SA.

Trwy ddefnyddio ein safle rydych yn derbyn y telerau hyn

Trwy ddefnyddio'r safle hwn, rydych yn cadarnhau eich bod yn derbyn y telerau defnyddio ac yn cytuno i gydymffurfio â nhw. Os nad ydych yn cytuno â'r telerau hyn, ni ddylech ddefnyddio'r safle. Argymhellwn eich bod yn argraffu copi o'r telerau hyn er gwybodaeth yn y dyfodol.

Gall delerau eraill fod yn gymwys i chi

Mae ein Polisi Preifatrwydd hefyd yn gymwys i'ch defnydd o'n safle, sy'n nodi'r telerau rydym yn prosesu unrhyw ddata personol yr ydym yn ei gasglu gennych chi, neu yr ydych yn ei ddarparu i ni. Trwy ddefnyddio ein safle, rydych yn rhoi caniatâd i brosesu o'r fath ac yn cadarnhau fod yr holl ddata yr ydych yn ei ddarparu yn gywir. Pryd bynnag y byddwch yn prynu gweithgareddau yn y parc o'n safle, mae ein telerau ac amodau cyflenwi yn gymwys i'r gwerthiannau hyn.

Gallwn wneud newidiadau i'r telerau hyn

Rydym yn diwygio'r telerau hyn o dro i dro. Bob tro rydych yn dymuno defnyddio ein safle, gwiriwch y telerau hyn i sicrhau eich bod yn deall y telerau sy'n gymwys ar yr adeg hynny.

Gallwn wneud newidiadau i'n safle

Gallwn ddiweddarau a newid ein safle o dro i dro er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'n cynnyrch, anghenion ein defnyddwyr a'n blaenoriaethau busnes.

Gallwn dynnu neu atal ein safle dros dro

Mae ein safle ar gael am ddim. Ni allwn sicrhau y bydd ein safle, neu unrhyw gynnwys ar y safle, bob amser ar gael neu'n ddi-dor. Gallwn dynnu neu atal dros dro neu gyfyngu ar argaeledd holl neu ran i'n safle am resymau busnes neu weithrediad. Ceisiwn roi rhybudd rhesymol am unrhyw ataliad dros dro.

Rydych hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl bersonau sy'n cael mynediad at ein safle trwy eich cysylltiad rhyngwyd yn ymwybodol o'r telerau defnydd hyn a thelerau ac amodau cymwys eraill, a'u bod yn cydymffurfio â nhw.

Mae ein safle ar gyfer defnyddwyr yn y DU yn unig

Mae ein safle ar gyfer pobl sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig. Nid ydym yn hysbysu fod y cynnwys sydd ar gael ar neu drwy ein gwefan yn briodol ar gyfer ei ddefnyddio neu ar gael o leoliadau eraill.

Sut ddylech ddefnyddio'r deunydd ar ein gwefan

Ni yw perchennog neu drwyddedai holl hawliau eiddo deallusol ar ein safle, a'r holl ddeunyddiau a gyhoeddir arni. Mae'r gwaith hyn wedi'u diogelu gan gyfreithiau a chytuniadau hawlfraint o amgylch y byd. Felly cedwir pob hawl.

Gallwch argraffu un copi, a gallwch lawrlwytho rhannau o unrhyw dudalen o'n safle ar gyfer defnydd personol a gallwch dynnu sylw eraill o fewn eich sefydliad at y cynnwys a gyhoeddir ar ein safle. Ni ddylech addasu copiâu papur neu ddigidol o unrhyw ddeunyddiau rydych wedi'u hargraffu neu lawrlwytho mewn unrhyw ffordd, ac ni ddylech ddefnyddio darluniau, ffotograffau, fideo neu sain, neu unrhyw raffeg ar wahân i unrhyw destun cysylltiedig.

Rhaid cydnabod ein statws (a statws unrhyw gyfranwyr a nodir) fel awduron y cynnwys ar ein safle bob amser. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw ran o'r cynnwys ar ein gwefan ar gyfer dibenion masnachol heb gael trwydded i wneud hynny gennym ni neu ein trwyddedwyr.

Os ydych yn argraffu, gwneud copi neu lawrlwytho unrhyw ran o'n safle yn erbyn y telerau defnydd hyn, bydd eich hawl i ddefnyddio ein safle yn dod i ben ar unwaith a rhaid i chi, yn ôl ein dewis ni, ddychwelyd neu ddinistrio unrhyw gopiâu o'r deunyddiau rydych wedi'u gwneud.

Peidiwch â dibynnu ar wybodaeth ar y safle hwn

Darperir y cynnwys ar ein safle er gwybodaeth gyffredinol yn unig. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel cyngor y dylech ddibynnu arno. Rhaid i chi gael cyngor proffesiynol neu arbenigol cyn cymryd, neu ymatal rhag, unrhyw weithred ar sail y cynnwys ar ein gwefan.

Er ein bod yn cymryd camau rhesymol i ddiweddarau'r wybodaeth ar ein safle, nid ydym yn gwneud unrhyw sylwadau, na sicrwydd, fod y cynnwys ar ein safle yn gywir, yn gyflawn neu'n gyfredol.

Nid ydym yn gyfrifol am wefannau rydym yn darparu dolenni ar eu cyfer

Os yw ein safle'n cynnwys dolenni i safleoedd ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd parti, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth yn unig. Ni ddylai dolenni o'r fath gael eu dehongli fel cymeradwyaeth gennym ni o'r gwefannau hynny na'r wybodaeth arnynt. Ni oes gennym reolaeth dros gynnwys y safleoedd neu adnoddau hynny.

Ein cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod rydych yn ei ddioddef

Nid ydym yn eithrio nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar ein hatebolrwydd i chi lle byddai'n anghyfreithlon gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am farwolaeth neu niwed personol a achosir gan ein hesgeulustod neu esgeulustod ein gweithwyr, asiantwyr neu isgontractwyr; am dwyll neu gamliwiad twyllodrus.

Bydd cyfyngiadau gwahanol ac eithriadau o atebolrwydd yn gymwys i atebolrwydd sy'n codi o ganlyniad i'ch cyfranogiad mewn gweithgareddau yn ein Parc, a nodir yn ein telerau ac amodau defnyddiwr cyffredinol ac Ymwadiad a Chydnabyddiaeth Risg.

Nodwch ein bod ond yn darparu ein safle ar gyfer defnydd domestig a preifat. Rydych yn cytuno i beidio â defnyddio ein safle ar gyfer unrhyw ddibenion masnachol na fusnes, ac nid oes gennym atebolrwydd i chi am unrhyw golled mewn elw, busnes, ymyrraeth busnes na cholled o gyfleoedd busnes.

Cyfreithiau pa wlad sy'n gymwys i unrhyw anghydfod?

Mae'r telerau defnyddio hyn, eu pwnc a'u ffurf (ac unrhyw anghydfod neu hawliadau nad ydynt dan gontract) yn cael eu llywodraethu gan gyfraith y DU ac awdurdodaeth llysoedd y Deyrnas Unedig.